COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6:30y.h. NOS IAU, MEDI 6ED YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

Cof; - 0109/18 Presennol

……..

Yn y Gadair Cyng. Eric W Roberts, Cynghorwyr. Dewi O Jones, Mici Plwm, Dr I. Edgar, H. Underwood, A. Williams, D. Bullard, E. Gruffydd, E.J. Hughes, M. Sol Owen, Ff. Adams,

Cof; - 0209/18 Ymddiheuriadau

……..

Cynghorwyr Elin Hywel, Henry Rees Williams

Cof; - 0309/18 Datgan Diddordeb

……..

Cyng. Dylan Bullard Eitem 26 – Gwyl Fwyd

Cof; - 0409/18 Gair gan y Maer

Adroddiad y Maer yn y llyfr cofnodion

Cof; - 0509/18 Aelodau'r cyhoedd yn bresenonol

……..

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol

Cof; - 0609/18 Materion Cyfansoddiadol a Staff

a) Trosglwyddo'r hawl i weinyddu ar ran Clerc y Cyngor Tref Pwllheli yn y cyfnod hud cyfarfod llawn y Cyngor yn fis Hydref i'r Cyng. Michael Sol Owen a'r Cyng. Elin Hywel.
b) Diweddariad Clerc a phenodi Dirprwy. Mae'r Clerc ar ol triniaeth yn teimlo'n well. Mae 7 wedi gofyn am fanylion y swydd, a dau wedi gofyn am fanylion pellach. Dyddiad cau i'r ymgeiswyr :- 12:00, 21 Medi 2018.

Cof; - 0709/18 Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Mai, 21018

Cadarnhawyd cofnodion mis Gorffennaf fel rhai a llofnodwyd hwy yn unol ar gyfraith.

Cof; - 0809/18 Materion yn codi o'r cofnodion trwy ohebiaeth

……..

Toiledau y Maes Pwllheli
Cyng. Henry Rees Williams, tynwyd sylw bod y Cyngor yma yn cyfranu £14k ar gyfer cadw'r toiledau yn agored yn y dref. **Penderfyniad:-** i ofyn faint o bres sydd yn cael ei gasglu yn toiled y Maes a lle mae'r pres yna'n mynd. **Ateb:-** Blwyddyn 2017-18, cyfanswm y ffioedd toiled y Maes £5,765.75. Casglu'r ffioedd yma o'r peiriant £4,386.75 i Wynedd mewn

taliadau i gwmni diogelwch. Incwm net felly £1,379. **Penderfyniad ; -** Gofyn i Cyng. Hefin Underwood am adroddiad ar y mater yma Mis Hydref.

Cof; - 0909/18 Cynllunio

a) C18/0482/45/LL
Dymchwel modurdai ac adeiladu 2 dy annedd
Mordurdai ger 5 Ffordd Mela, Pwllheli **Cytuno**
b) C18/0550/45/LL
Adeiadu estyniad ochr unllawr ffens ffin
Rochford, Yr Ala, Pwllheli **Cytuno**
c) C18/0724/45/LL
Codi estyniad unllawr ochr, newid gorffeniad, dymchwel a chodi mordurdy newydd.
Llecyn Haul. Plas Tanrallt, Pwllheli. **Cytuno**

Cof; - 1009/18
Derbyn adroddiad 'Summary of Receipts & Payments' gyda'r bwriad o gael amcangyfrif o faint o arian fydd ar gael i wahanol weithgareddau/prosiectau yn y Cyngor Mis Hydref.
Cof; - 1109/18
Blodau a Chwyn yn y dref

Cyng. Elfed Gruffydd yn adrodd bod tua 20 o twbiau blodau wedi cael eu ail-blanu.
Diolchodd i'r Cynghorwyr, gwirfoddolwyr a'r siopau am edrych ar eu hol yn y stod yr Haf.

- 1209/18
Y Tram,
Adroddiad gan Cyng. Michael Sol Owen:- Y gwaith paentio bron wedi ei gwblhau.
Penderfyniad :- cysylltu gyda Plas Glyn y Weddw parthed y cam nesa, sef gorchydd ar gyfer y Tram (Llythyr 10/9/18 i I. H. PgyW, i ofyn am gyfarfod)

Cof; - 1309/18
Dyfodol Clwb Ieuenctid Pwllheli ;- Adroddiad gan Cyng. Michael Sol Owen; gair gyda S. B. R. ar y sefyllfa, mae swyddogion o Gwynedd yn barod i ddod i esbonio'r cynlluniau sydd ar gael. **Penderfyniad ;-** Gwahoddiad iddynt ar gyfer y Cyngor Hydref 4ydd.
(Ffon ac e-bost 10/9/18 gyda gwahoddiad i fynychu'r Cyngor 4 Hydref 18:30)
Cof; - 1409/18

Digwyddiadau Wardeniaid Llifogydd

Adroddiad gan Cyng. Michael Parry, **Penderfyniad** Yn ei absenoldeb ail gyflwyno'r eitem Mis Hydref

Cof; - 1509/18

Hesg- O Gwmpas y Dref (tymor hir) a llwybrau newydd
Cyng. Elfed Gruffydd **Penderfyniad ;-** Gwahoddiad i Cymorth Naturiol Cymru mis Tachwedd, i esbonio eu cynlluniau tymor hir ar gyfer yr Harbwr Bach a llecynau eraill sydd yn eu meddiant. Hefyd sylwadau ar Japanese Knot Weed. (e-bost i CNC 10/9/18 yn ymestyn gwahoddiad iddynt ar gyfer Cyngor 1af Tachwedd 18:30)

Cof; - 1609/18
17. Yr hen turnstile Canolfan Hamdden - angen penderfyniad os am gyfranu at ei atgyweirio. **Penderfyniad** Cyfrranu 50% o'r gost sef £950, gydag amodau. Sef:- lleoliad, a plac yn dangos cyfraniad y Cyngor Tref. (llythyr 11/9/18 i C. F. yn datgan y penderfyniad)

Cof; - 1709/18
18. Marchnad Sul
Cyng Elfed Gruffydd, **Penderfyniad** Gofyn am y sefyllfa diweddara parthed stondinwyr lleol. (E-bost 10/9/18 i M. L.W. yn gofyn am y sefyllfa diweddara)

Cof; - 1809/18
Llwybr Pont Llechen – llythyr gan Mr Gwyndaf Hughes. **Penderfyniad** Edrych ar cytundeb Atkins a gofyn am bris codi lefelau'r llwybr o gwmpas y bont a holi am prisiau cystadleuol. Nodyn ;- Sôn ond dim addewid o waith ar y llwybr yma gan Gwynedd yn 2019/20. (Llythyr i Mr Hughes 10/9/18 yn esbonio'r sefyllfa)

Cof; - 1909/18

Safle Bysus
Adroddiad gan Cyng. Ffiona Adams ;- sefyllfa diweddara mis Hydref.

Cof; - 2009/18
Cais gan Clwb Rygbi Pwllheli am £500. **Penderfyniad** Cyfranu tuag at eu gweithgareddau a dymuno'n dda iddynt. (Llythyr a siec 10/9/18 i'r Clwb)

Cof; - 2109/18

Gwyl Fwyd Pwllheli.
Cais gan Cyng. D. Bullard am £1,000 o'r flwyddyn 2018 – 19, a £1,000 o'r flwyddyn 2019 – 20.
Penderfyniad Y Cyngor yn gefnogol ac yn fodlon ail ystyriad hwn mis Hydref, bod y cyfraniad yn seliedig ar dystiolaeth bod gan y Pwyllgor Gwyl Fwyd Pwllheli :- cyfansoddiad, swyddogion perthnasol (Cadeirydd,Trysorydd,Ysgrifenydd), Cyfrif Bank, Cynllun Busnes yn dangos sut/lle mae ariannu/gosod yr Wyl. (E-bost i Cyng.D. Bullard 10/9/18 yn esbonio'r uchod

Cof; - 2209/18 Derbyniadau

250.00	Rhent Market Hall	CR
250.00	Rhent Adams	CR
2.47	Llog NS Bond	CR
21.13	BT ad-daliad ar cyfrif GP00409530	CR

Cof; - 2309/18

Taliadau

1221.93	Costau gweinyddol rhedeg y siambr - Gorffennaf	sieciau
221.20	BTicloud	203021
360.00	Cegin Grug Bwyd i Sul y Maer	203022
75.00	Llanw Llyn –hysbyseb Dirprwy Clerc	203023
9.60	Gwynedd Disposables – nwyddau glanhau	203024
1000.00	Clwb Criced – cyfraniad a137	203025
1000.00	Clwb Snwcer pwllheli a137	203026
100.00	Clwb hwylio pwllheli a137	203027
75.00	y Ffynnon - hysbysbeb Dirprwy Clerc	203028
67.00	100 o stampiau D 1af	203029
1222.13	Costau gweinyddol rhedeg y siambr - Awst	sieciau
333.22	Treth incwm 7/18	203032
25.20	BT tal ffon	203033
416.40	Scribe rhaglen/trwydded meddalwedd	203034
2200.00	Atkins Groundworks 2 doriad Llwybrau	203035
2904.15	Zurich Ins. EL,PL Siambr etc	203036
511.72	EDF Energy – trydan goleuadau Nadolig 2017	203037
550.00	R. Adams trwsio 23 cadair – Cyfrif y Siambr	100028

Daeth y Cyngor i ben am 7:45 y.h

Cynhelir Cyfarfod Nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 4 Hydref 2018

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 25 Medi, 2018.